

## JENKINS, JENKIN (bu farw 1780), athro academi Caerfyrddin

**Enw:** Jenkin Jenkins  
**Dyddiad marw:** 1780  
**Rhyw:** Gwryw  
**Galwedigaeth:** athro academi Caerfyrddin  
**Maes gweithgaredd:** Crefydd; Addysg  
**Awdur:** Robert Thomas Jenkins

Ni wyddys ddim o'i darddiad nac o'i hanes cyn iddo fynd i academi Maesgwyn a Llwynllwyd dan [Vavasor Griffiths](#), na pha bryd yr aeth iddi; a chan na symudodd gyda hi i Hwlfordd, ni wyddys chwaith ym mhle y bu wedyn (tybir mai yn Sgotland) hyd 1747, pan urddwyd ef (llyfr eglwys y Cilgwyn, *Y Cofiadur*, 1923, 31) yn weinidog ar eglwys Llanfyllin (gall iddo fod yno 1743-7, heb ei urddo).

Talodd y Congl. Fund Board ei gyfraniad olaf iddo fel gweinidog Llanfyllin ar 2 Mehefin 1760 (*Y Cofiadur*, 1958, 19).

Gweithredai hefyd fel athro ysgol y [Dr. Daniel Williams](#) yno, a bu [Abraham Rees](#) yn ei ysgol ([Jeremy](#), *The Presbyterian Fund*, 88). Dilewyrch fu ei weinidogaeth yn Llanfyllin. Ym mis Tachwedd 1759 aeth i Gaerfyrddin, i gynorthwyo [Samuel Thomas](#) yn yr academi ac yn yr ysgol ramadeg a oedd ynglyn â hi. Gellir yn wir gredu mai fel ysgolfeistr, ac athro mewn ieithoedd, yr oedd Jenkins ar ei orau, oblegid pan roddwyd gofal yr academi'n gyfan arno, ar ymddiswyddiad [Thomas](#) yn 1764 (a bugeiliaeth eglwys Heol Awst pan fu farw [Thomas](#) yn 1766), dirywiodd pethau'n raddol. Ariad oedd ef, a gwnâi hynny ei ddarlithiau diwinyddol a'i bregethau'n atgas i'r unionged; hefyd cwynid bod adrannau athronyddol a mathemategol a gwyddonol y gwaith (y rhoddid cryn bwys arnynt yn y cyfnod hwnnw) yn cael eu hesgeuluso - efallai nad ymhoffai ynddynt; ond ar y llaw arall gwrthodai'n ystyfnig gymryd cynorthwyr. Yr oedd hefyd yn drwm iawn ei glyw ac yn bregethwr sâl (meddai [Thomas Morgan](#) o Henllan), ac yn gynyddol lac ei ddisgyblaeth. Aeth yn ffrwgd fawr rhyngddo a'r Bwrdd Presbyteraid o 1775 ymlaen (y mae llawer adlais ohoni yn N.L.W. MS. 5453, sef 'llyfr llythyrau' [Thomas Morgan](#)); ac yn 1779 diswyddwyd ef. Symudodd i Lundain, a bu farw yn Tottenham Court 28 Tachwedd 1780. Yr oedd ganddo radd D.D. (ni wyddys o ble) ers tua 1773. Yr enwocaf o'i ddisgyblion yng Nghaerfyrddin oedd [David Davis](#), Castell Hywel (ac y mae'n deg cofio ei fod yn rhoi canmoliaeth uchel i'w athro), a [Thomas Charles](#) o'r Bala.

### Awdur

Yr Athro Emeritus Robert Thomas Jenkins, (1881 - 1969)

### Ffynonellau

*Hanes Eglwysi Annibynnol Cymru*, i, 263, 274; iii, 430

W. J. Evans yn *Yr Ymofynnydd*, 1900, 251-5

D. E. Jenkins, *Life of Thomas Charles* (Dinbych 1908), i, 31-7

*A History of Carmarthenshire*, ii, 239-40

G. D. Owen, *Ysgolion a Cholegau yr Annibynwyr* (1939), 44-8

a'r cyfeiriadau uchod

### Dolenni Ychwanegol

Wikidata: [Q20738090](#)

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: <http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/> 

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchfrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n [tudalen codi arian](#) am ragor o wybodaeth.

